Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol:  Gwelliant Sylweddol

# Ysgol Syr Hugh Owen

Bethel Road
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1HW

Dyddiad yr ymweliad:  Ionawr 2026

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Syr Hugh Owen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion bregus, ynghyd â'r trosolwg strategol o'r ddarpariaeth honno

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau cadarn i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion bregus, ynghyd â gwella'r trosolwg strategol o'r maes. Mae strwythur arweinyddiaeth glir wedi'i sefydlu ac mae arweinwyr yn cydweithio'n agos i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Mae arweinwyr wedi sefydlu calendr addas ar gyfer hunanwerthuso'r adran ADY, sydd wedi dechrau cyfrannu at well dealltwriaeth o ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol wedi datblygu dull synhwyrol o adnabod a thracio anghenion disgyblion drwy gasglu data perthnasol ar lythrennedd, rhifedd ac agweddau lles ac wedi llunio map darpariaeth o ymyraethau priodol. Er bod hyn wedi cryfhau'r ddealltwriaeth o anghenion disgyblion, mae'r gwaith i werthuso effaith yr ymyraethau a'u haddasu yn ei ddyddiau cynnar. Mae'r data am ddisgyblion ac arddull addysgu newydd yr ysgol yn dechrau cynorthwyo staff i gynllunio ar gyfer disgyblion sydd angen cefnogaeth.

Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion ADY wedi'u cryfhau'n sylweddol er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn o wybodaeth a chynllunio mwy pwrpasol. Mae ansawdd y proffiliau un dudalen a'r cynlluniau datblygu unigol (CDU) wedi gwella ac mae cynnydd yn erbyn targedau yn cael eu gwerthuso'n briodol.

Trwy sefydlu 'Yr Hwb', sydd â thîm o staff arbenigol, mae'r ysgol yn dechrau darparu ymyraethau a darpariaeth cwricwlwm amgen addas ar gyfer cefnogi lles a chynhwysiant disgyblion bregus. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar. Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais addas ar ddatblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion drwy gyfleoedd rheolaidd, megis sesiynau boreol, sy'n dechrau cryfhau hyder a dealltwriaeth

staff o addysgu disgyblion ADY a disgyblion bregus. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae disgyblion ag ADY a disgyblion bregus yn dechrau elwa o'r ddarpariaeth bwrpasol, sy'n cefnogi eu hymgysylltiad â dysgu a'u lles.

## A2. Gwella hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi adolygu a chryfhau ei phrosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae calendr mwy cynhwysfawr o weithgareddau sicrhau ansawdd ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Bellach, mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth fwy cadarn o'u rolau yn yr agwedd hon o waith yr ysgol ac mae eu gallu i adnabod meysydd i'w gwella yn yr addysgu wedi gwella. Mae arweinwyr yn cynnig dysgu proffesiynol defnyddiol i gefnogi athrawon i ddatblygu eu harferion.

Mae arweinwyr canol wedi elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i'w harfogi i gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd a defnyddio'u canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, maent wedi elwa o gyfleoedd buddiol i gyd-arsylwi gydag aelodau o'r uwch dîm rheoli a thrafod canfyddiadau wrth graffu ar waith disgyblion. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o ddata, gan gynnwys data presenoldeb yn ofalus, er mwyn ystyried perfformiad yr ysgol. Mae arweinwyr yn triongli canfyddiadau o'r ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd yn bwrpasol. Er hyn, mae peth amrywiaeth ym mha mor dda mae arweinwyr yn arfarnu'r ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddysgu disgyblion. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon miniog. Yn aml, seilir cynlluniau gwella adrannol yn agos ar flaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol ac, o ganlyniad, nid yw'r camau gweithredu bob amser yn mynd i'r afael â'r union agweddau sydd wedi cael eu hamlygu o waith hunanwerthuso'r adran.

Trwyddi draw, mae gallu arweinwyr i hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gryfach nac ar adeg yr arolygiad craidd. Mae effaith hyn i'w gweld yn y gwelliannau cychwynnol a nodir ym meysydd ADY, addysgu a phresenoldeb.

## A3. Cryfhau arweinyddiaeth strategol er mwyn cwmpasu holl waith allweddol yr ysgol

Mae uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol wedi cymryd nifer o gamau bwriadus i ymateb i'r argymhelliad hwn. Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi eu hailstrwythuro yn synhwyrol i greu tîm dysgu ac addysgu a thîm cynhwysiant. Addaswyd rolau yn bwrpasol er mwyn sicrhau arweiniad strategol mwy cadarn ar gyfer ADY, y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion bregus ac addysgu. Mae llinellau atebolrwydd yn gliriach ac mae llai o or-

gyffwrdd yng nghyfrifoldebau unigolion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr drosolwg cadarnach o waith yr ysgol gan gynnwys addysgu, presenoldeb ac ADY.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cryfhau trefniadau cyfarfodydd cyswllt. Bellach, mae’r cyfarfodydd yn fwy rheolaidd ac yn canolbwyntio’n benodol ar flaenoriaethau’r ysgol. Yn ogystal â chynnig cefnogaeth, mae yna fwy o her yn y cyfarfodydd hyn er mwyn dwyn staff yn atebol. O ganlyniad i hyn, a’r hyfforddiant a roddwyd i arweinwyr canol, mae ganddynt ddealltwriaeth gliriach o’u rolau ac maent yn fwy hyderus wrth drafod cryfderau ac agweddau i’w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae ffocws cynyddol ar faterion strategol yn y cyfarfodydd adrannol bellach, gyda chyfleoedd pwrpasol i ymateb i’r meysydd i’w gwella a gafodd eu hadnabod yn ystod y gweithgareddau sicrhau ansawdd. Er bod peth amrywiaeth yn ansawdd y cyfarfodydd hyn, yn yr enghreifftiau gorau, mae ffocws cryf ar yrru gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Yn ogystal, mae’r ysgol wedi cryfhau’r trefniadau ar gyfer caffael barn staff trwy’r strwythur cyfarfodydd a holiaduron pwrpasol. Golyga hyn fod mwy o ymdeimlad o waith tîm yn yr ysgol.

Mae gan lywodraethwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o waith yr ysgol, erbyn hyn. Mae trefn synhwyrol o is-bwyllgorau yn rhoi ffocws pwrpasol ar addysgu a dysgu, arweinyddiaeth a lles. Mae llywodraethwyr yn cael hyfforddiant ac arweiniad defnyddiol i’w cefnogi i holi a herio’r ysgol. Yn ogystal, mae’r wybodaeth a ddarperir iddynt gan arweinwyr yr ysgol yn fwy clir a hylaw nag ar adeg yr arolygiad craidd. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl gynyddol bwysig wrth ddwyn arweinwyr yn atebol am eu gwaith. Mae trefniadau’r ysgol i gaffael barn rhieni trwy holiaduron a chyfarfodydd yn eu dyddiau cynnar.

### A4. Gwella presenoldeb disgyblion, yn cynnwys grwpiau o ddisgyblion, a’r gwaith strategol i wneud hynny.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cryfhau’n sylweddol y modd y maent yn blaenoriaethu a hybu presenoldeb. O ganlyniad, mae’r trefniadau ar gyfer monitro, dadansoddi ac ymateb i batrymau presenoldeb wedi gwella.

Mae arweinwyr wedi cryfhau gwaith bugeiliol yr ysgol drwy ddatblygu ystod o drefniadau rhagweithiol i gefnogi disgyblion a’u teuluoedd. Er enghraifft, maent wedi cynyddu capasiti staffio i ganolbwyntio ar les a phresenoldeb, sy’n galluogi’r ysgol i ymgysylltu’n rheolaidd ac yn adeiladol â theuluoedd. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl o anghenion disgyblion unigol a’r rhwystrau sy’n effeithio ar eu presenoldeb. Mae

hyn wedi arwain at gynllunio mwy pwrpasol i gefnogi disgyblion penodol, er enghraifft drwy addasu elfennau o'r cwricwlwm a darparu cymorth ychwanegol wedi'i deilwra.

Mae arweinwyr bellach yn dadansoddi data presenoldeb yn fanwl iawn, gan gynnwys data ar grwpiau penodol o ddysgwyr megis disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r rhai ag ADY. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth glir iawn o dueddiadau, problemau sy'n codi'n gynnar ac effaith ymyraethau penodol dros amser.

Mae'r ysgol wedi cryfhau'r diwylliant o hybu presenoldeb da. Mae staff yn cyfleu pwysigrwydd mynychu'n gyson trwy wasanaethau ysgol a chyfnodau boreol, ac yn gosod targedau uchelgeisiol i ddisgyblion. Mae mentrau megis cystadlaethau rhwng grwpiau cofrestru a systemau gwobrwyo wedi cynyddu cymhelliant disgyblion ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau tuag at bresenoldeb.

Yn ogystal, mae arweinwyr wedi gwella eu dulliau o gyfathrebu. Maent yn anfon llythyrau at bob teulu i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb uchel ac yn cynnal cyfarfodydd wedi'u targedu â rhieni unigol er mwyn trafod a goresgyn rhwystrau penodol. Mae'r dull hwn o gyfathrebu wedi cryfhau ymddiriedaeth ac wedi cynyddu parodrwydd teuluoedd i weithio gyda'r ysgol.

Rhwng y blynyddoedd academaidd 2022-23 a 2024-25, roedd presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n dda. Serch hyn, roedd canran presenoldeb yr ysgol ychydig yn is na chyfartaledd Cymru yn 2024-25 ac mae presenoldeb yr ysgol yn parhau i fod llawer yn is nag yr oedd cyn y pandemig. Ar y cyfan, nid yw presenoldeb yr ysgol yn gwella'n ddigon buan. Mae presenoldeb yn nhymor yr hydref 2025 wedi disgyn ychydig o'i gymharu â phresenoldeb tymor yr hydref 2024, ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn parhau'n is na phresenoldeb eu cyfoedion.

## A5. Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cyflwyno ystod o ddulliau priodol i wella effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion. Mae ffocws penodol ar wella cynllunio i sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r ffocws hwn ar wella cynllunio, mae gan staff ddealltwriaeth gytûn o ddisgwyliadau sy'n eu cynorthwyo i wella ansawdd yr addysgu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith addas. Maent yn datblygu perthynas waith dda â'u disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac maent yn sefydlu arferion clir i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cynllunio

gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn briodol, ac yn cynnig esboniadau a chyfarwyddiadau clir iddynt. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn holi cwestiynau defnyddiol i annog disgyblion i adalw gwybodaeth. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud o leiaf y cynnydd sy’n ddisgwyliedig, yn unol â’u hoedran a’u gallu.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle ceir yr arferion gorau, mae athrawon yn cynllunio'n fedrus gyda ffocws clir ar yr hyn maent am i’r disgyblion ei ddysgu. Maent yn modelu ac yn enghreifftio gwaith yn effeithiol ac yn defnyddio cwestiynau i herio disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn agos ac yn addasu tasgau yn synhwyrol er mwyn sicrhau bod cynifer o ddisgyblion â phosibl yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau her isel nad ydynt bob amser yn dilyn ei gilydd yn rhesymegol. Yn y gwersi hyn, mae gorddibyniaeth ar sgaffaldiau ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth yn eu dysgu. Nid yw’r athrawon hyn bob amser yn addasu cyflymder na strwythur eu gwersi’n briodol i gyd-fynd ag anghenion disgyblion ac, o ganlyniad, mae lleiafrif o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion mewn gwersi yn addas, gan gynnig adborth llafar defnyddiol, lle bo hynny'n briodol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol sy’n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda ac yn cynnig cyngor clir ar sut i wella ymhellach. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth yn amrywiol ac, ar adegau, nid yw’r arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella yn ddigon clir.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.